**PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Dref, Rhuthun ar Ddydd Mercher 18fed Rhagfyr 2002 am 10.00 a.m.

1**YN BRESENNOL**

Cynghorwyr F.D. Jones (Cadeirydd) J. Butterfield, G. Clague, M.Ll. Davies, Sophia Drew, A.E. Fletcher-Williams, I.M. German, M.A. German, K.N. Hawkins, N.J. Hughes, N. Hugh-Jones, G. Jones, P. Jones, R.E. Jones, R.J.R. Jones, A. Owens, F. Shaw, J.A. Smith, D.A.J. Thomas, S. Thomas, K.E. Wells, C.H. Williams, a R.Ll. Williams. A. J. Tobin (Sylwedydd).

1**HEFYD YN BRESENNOL**

Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Pen Swyddog Cynllunio (De), Pen Swyddog Cynllunio (Gogledd) a Swyddog Gweinyddol (G. Butler), Uwch Swyddog Cynllunio (De) (Iwan Lloyd).

**DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH**

Cynghorwyr E.R. Jones, J.S. Kerfoot-Davies, D.A. Thomas, R.W. Hughes, D. Holder, D. Jones a Phennaeth Gwasanaethau Cynllunio (A.O. Phillips).

**855. MATERION BRYS**

Dim

**856. CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd Iwan Lloyd, (Uwch Swyddog Cynllunio, De) i'r Pwyllgor Cynllunio.

**857. CORNERSTONE TRUST**

Hysbyswyd yr aelodau fod cais 45/2002/984/PF Conway House, 115 Ffordd Russell, Y Rhyl – newid defnydd yn llety lloches/hostel â chefnogaeth i ddynion digartref sengl wedi'i dynnu'n ôl gan Cornerstone Trust.

**858. CYNLLUN DATBLYGU UNEDOL SIR DDINBYCH**

1Hysbyswyd yr Aelodau fod y ddogfen CDU derfynol ar gael yn awr. Mae copïau wedi'u hanfon i Gynghorwyr a Chynghorau Cymuned a bydd yn cael ei gadael yn Ystafelloedd Grwpiau'r Aelodau, Llyfrgelloedd Lleol a bydd ar gael ar Wefan Sir Ddinbych.

**859. YMDDIHEURIAD**

Ymddiheurodd Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol i'r Aelodau am gynnwys y rhestr Aelodaeth anghywir ar yr Agenda Gymraeg.

**860. CYFRANOGIAD AELODAU LLEOL YN Y PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Mewn ymateb i gwestiynau'r Aelodau fe gytunwyd bod y Swyddogion i baratoi adroddiad eglurhaol ar hawliau Aelodau Wardiau Lleol i fynychu ac i siarad yn y Pwyllgor Cynllunio.

**861. CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn rhestru'r cynlluniau a gyflwynwyd ac a oedd angen eu penderfynu gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD**:-*

*(a)* *cadarnhau argymhellion y Swyddogion, fel y'u cynhwysir yn yr adroddiad a gyflwynir yn awr, a rhoi caniatâd cynllunio neu'i wrthod yn ôl fel y digwydd, fel y bo'n briodol dan y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio ac Iawndal, 1991, Rheoliadau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref, 1994 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth), 1990 i'r datblygiad a arfaethir gan y cynlluniau canlynol yn amodol ar yr amodau a nodir yn yr atodlen a gyflwynir yn awr:-*

(i) Caniatâd

| <u>Rhif y Cais</u> | *<u>Disgrifiad a Lleoliad</u>* |
|---|---|
| 02/2002/1098/PF | (Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau gan Gyngor Tref Rhuthun)<br>Codi sied ar y Caeau Chwarae Llys Famau Rhuthun. |
| 03/2002/0337/PF | (Ar ôl ystyried newid i'r adroddiad – mae'r lôn o'r Gogledd-Orllewin ac mae Fferm Rhysgog i'r Gogledd-Ddwyrain.<br>Addasu stabl a cherbyty segur i greu dwy annedd, mynedfa newydd i gerbydau a gosod dau danc carthion (Adnewyddu Caniatâd Cynllunio a gymeradwywyd yn flaenorol dan Rif Côd 03/204/97/PO) yn y tai allan yn Plas Berwyn Berwyn Llangollen. |
| 03/2002/0611/PR | (Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau gan Gyngor Tref Llangollen - yn gwahodd Aelod o'r Cabinet ac AC i Ymweliad Safle).<br>Manylion pump ar hugain o anheddau, adeiladu mynedfeydd i gerbydau a cherddwyr, a lle agored (a gyflwynwyd yn unol â Chaniatâd Cynllunio Amlinellol a ganiatawyd dan Gyfeirnod 03/224/99/PO) ar Dir i'r De o Greenacres Fron Bache Llangollen.<br>YN AMODOL ar Amodau Diwygiedig 5, 7 & 8<br>5. Nid oes dim datblygu a awdurdodir gan y gymeradwyaeth yma i'w gychwyn hyd nes y bydd cynllun i ddarparu gwaith draenio dwr wyneb wedi'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ac mae cynllun o'r fath i'w weithredu cyn adeiladu unrhyw arwynebau anhydraidd sy'n draenio i'r system yma.<br>7. Rhaid peidio â bod dim dwr wyneb yn ymarllwys i'r system garthffosiaeth gyfunol ar unrhyw adeg.<br>8. Nid oes dim gwaith adeiladu i'w gychwyn hyd nes y byddir wedi cael cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol i'r defnyddiau arfaethedig sydd i'w defnyddio ar gyfer wynebau allanol waliau a thoeau'r anheddau a'r garejis a ganiateir drwy hyn, ac nid oes dim defnyddiau heblaw'r rheini a gymeradwywyd i'w defnyddio. |
| 08/2002/0892/PF | Ailadeiladu asgell ysgubor storio a ddymchwelwyd o'r blaen a tho newydd ar asgell bresennol yr ysgubor yn Tan y Graig Llangar Corwen.<br>(Dymunai'r Cynghorydd Sophia Drew iddo gael ei nodi ei bod hi wedi pleidleisio'n erbyn rhoi caniatâd cynllunio). |
| 16/2002/1072/PF | (Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth P. Williams, Trenalls, Tan y Bryn (2il lythyr)).<br>Codi annedd ac adeiladu mynedfa newydd i gerbydau yn 31 Tan y Bryn, Llanbedr, Dyffryn Clwyd, Rhuthun.<br>YN AMODOL ar Amodau Diwygiedig 4 a 6.<br>4. Ni chaniateir i'r gwrych ar hyd ffrynt y safle fynd yn fwy nag uchder o 1.05m uwchben lefel y lôn gerbydau gyfagos ar unrhyw adeg, ac nid oes dim plannu neu adeileddau sy'n uwch na'r uchder hwn i'w caniatáu yn unrhyw fan o fewn 2.0m i gefn y llwybr troed sy'n rhedeg ar hyd terfyn deheuol y safle. |

6. Nid yw lefel llawr isaf gorffenedig yr annedd i fod fel y'i dangosir ar y cynlluniau a gyflwynwyd ond mae i fod fel y gall gael ei gytuno'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn cychwyn unrhyw ddatblygu.
(Dymunai'r Cynghorydd N. Hugh-Jones iddo gael ei nodi ei fod wedi atal ei bleidlais)

16/2002/1155/PF

Manylion ty, garej a mynedfa newydd i gerbydau a gyflwynwyd yn unol â chaniatâd cynllunio amlinellol 16/2001/0819/PO yn Llain 13 (Rhif 25) Tan y Bryn, Llanbedr, Dyffryn Clwyd, Rhuthun.

25/2002/1107/PO

Datblygu tir drwy godi 3 annedd ac adeiladu mynedfa a ffordd wasanaethu gysylltiedig (adnewyddu caniatâd a roddwyd dan gôd 25/588/99/PO) ar Dir gyferbyn â Penlan, Nantglyn, Dinbych.

42/2001/0872/PF

Codi 3 chalet gwyliau deulawr yn Rhifau 1-4 cynhwysol a chadw 7 chalet gwyliau deulawr yn Rhifau 5-11 cynhwysol (cyfanswm o 33 o unedau hunanarlwyo), adeiladu mynedfa newydd i gerbydau a chreu lle parcio ceir (yn rhannol ôl-weithredol) yn Graig Park Country Club Ltd, Allt y Graig, Dyserth, Y Rhyl
YN AMODOL ar reswm Diwygiedig dros Amod 9 a Nodyn Newydd i'r Ymgeisydd.
Rheswm 9. Ni fyddai'r chalets yn addas i fyw ynddynt yn llawn amser
NODYN NEWYDD I'R YMGEISYDD : Fe'ch cynghorir na ddylid gwneud unrhyw ddatblygu pellach ar y safle hyd nes y byddir wedi cydymffurfio â'r amodau perthnasol sydd ynghlwm wrth y caniatâd cynllunio hwn, yn arbennig amod rhif 3 (manylion llawn y fynedfa) ac amod rhif 8 (presenoldeb archeolegydd dan gytundeb ar y safle). Bydd methu â chydymffurfio â thelerau'r caniatâd cynllunio hwn yn arwain i'r Cyngor gymryd camau yn cynnwys cyflwyno rhybudd tor-amod.
(Dymunai'r Cynghorwyr Sophia Drew a Neville Hugh-Jones iddo gael ei nodi eu bod wedi pleidleisio'n erbyn rhoi caniatâd cynllunio).

42/2002/1082/PF

(Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau gan R. Williams, 5 Rhodfa Pedr, Dyserth).
Codi 1 annedd ar wahân ac adeiladu mynedfa newydd i gerbydau yn 1 Rhodfa Pedr, Dyserth, Y Rhyl.
YN AMODOL ar Amodau Diwygiedig 7 ac 8 ac Amod Newydd 9.
7. Nid oes dim datblygu i gychwyn hyd nes y byddir wedi cael cymeradwyaeth yr awdurdod cynllunio lleol i orffeniad y ffenestri ar gyfer yr annedd a ganiateir drwy hyn, a dim ond y gorffeniad cymeradwyedig sydd i'w ddefnyddio.
RHESWM : Sicrhau bod y manylion yn foddhaol mewn perthynas â chymeriad a golwg yr adeilad.
8. Er darpariaethau'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (neu unrhyw orchymyn sy'n diddymu ac yn ailbasio'r gorchymyn hwnnw wedi neu heb ei addasu) nid oes dim ffenestri yn ychwanegol at y rheini a ddangosir ar y cynlluniau a gymeradwywyd i'w rhoi i mewn ar unrhyw adeg.
RHESWM : Cynnal safon resymol o breifatrwydd yn yr annedd a'r gerddi cyfagos er lles amwynder.
9. Cyn i weithgareddau adeiladu gychwyn mae'r datblygwr i archwilio'r safle am unrhyw dystiolaeth o nwy tirlenwi ac mae i roi adroddiad i'r awdurdod cynllunio lleol am ganfyddiadau'r ymchwiliad. Mae unrhyw ragofalon sy'n codi o'r ymchwiliadau sydd i'w hymgorffori o fewn adeiladu'r annedd i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol ac mae'r adeiladu i'w wneud yn unol â'r manylion a gymeradwywyd.

RHESWM : Sicrhau bod bodolaeth unrhyw nwyon tirlenwi yn cael ei gymryd i ystyriaeth.

43/2002/1188/PF

(Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau gan Bennaeth Priffyrdd).
Amnewid math o dai yn dai tref 3-llawr a chreu 4 llain ychwanegol ar Leiniau Tower Gardens Estate 12-18 a 113-116 Anwyls Victoria Road, Prestatyn.
YN AMODOL ar Amod Ychwanegol 5 a Nodyn Newydd i'r Ymgeisydd.
5. Mae'r lleoedd parcio a ddangosir ar y cynllun a gymeradwywyd i'w cadw ar gael at y diben hwnnw bob amser.
RHESWM : Er mwyn diogelwch y briffordd.
NODYN NEWYDD I'R YMGEISYDD : Mae Grwp Mynediad Sir Ddinbych yn tynnu eich sylw at ddefnydd mynedfeydd trothwy isel, dynesfeydd dirwystr, a thoiled lawr grisiau sy'n hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn i gwrdd â gofynion Cartrefi Oes 2000 (Lifetime Homes of 2000).
Rhoed Caniatâd Cynllunio ar bleidlais fwrw'r Cadeirydd.

44/2002/1050/PF

(Ar ôl ystyried 2 lythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau gan Asiant yr Ymgeisydd a Chymdeithas Amgylcheddol y Rhyl).
Addasu ac estyniadau i adeiladau fferm segur i ffurfio 8 o anheddau a 3 o garejis, codi 5 o garejis ac adeiladu 2 o leoedd pasio ar y ffordd ddynesu (cais diwygiedig i'r un a gymeradwywyd dan Gôd Cyf. 44/1999/0758/PF) yn y tai allan ar Fferm Pen y Bryn, Morfa Cwybr, Y Rhyl.
YN AMODOL ar y diwygiad canlynol i Amod 12 a Nodyn Ychwanegol i'r Ymgeisydd.
12. Ychwanegu .."mae'r canlyniadau i'w cyflwyno'n ysgrifenedig i'r awdurdod cynllunio lleol ac mae unrhyw waith lliniaru yr ystyrir bod ei angen gan yr awdurdod cynllunio lleol i ddiogelu unrhyw rywogaeth a'u cynefin i'w wneud cyn cychwyn unrhyw ddatblygu a/neu ei ymgorffori yn y datblygiad"
RHESWM : Sicrhau bod y datblygiad yn cychwyn yn y cyfnod sy'n cyfateb i'r caniatâd cynllunio sydd mewn bod o ystyried newidiadau perthnasol yn y polisi ac ystyriaethau peryglon llifogydd.
NODYN YCHWANEGOL I'R YMGEISYDD : Tynnir eich sylw at y ffaith fod Asiantaeth yr Amgylchedd yn cynghori y gall y safle fod mewn perygl gan ddwr llifogydd neu y gall y safle gael ei dorri i bob pwrpas os digwydd llifogydd.

45/2002/1120/PR

(Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau gan Bennaeth Priffyrdd).
Manylion dyluniad a golwg allanol adeiladau a cholofnau CCTV a thirlunio'r safle, fel y mynnir gan Amod Rhif 1 caniatâd cynllunio amlinellol Cyfeirnod 45/2001/0403/PO) yn Depo Cyngor Sir Ddinbych, Ffordd Las, Y Rhyl.
YN AMODOL ar Amod Ychwanegol 1.
1. Mae wal neu ffens sgrinio i'w darparu ar derfyn de-ddwyreiniol y safle cyn i neb fyw yn unrhyw un o'r unedau a ganiateir drwy hyn yn unol â manylion sydd i'w cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo.
RHESWM : Er mwyn amwynder preswyl a gweledol.

46/2002/0758/PF

Cyhoeddodd y Cynghorydd Selwyn Thomas ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr tra oedd yn cael ei ystyried.
(Ar ôl ystyried diwygiad i'r adroddiad – nid yw'r llain ganol wedi'i chau i ffwrdd eto).

Newid defnydd tir yn safle carafanau teithiol ac addasiadau i'r fynedfa i gerbydau yn Spring Gardens, The Roe, Llanelwy.
YN AMODOL ar Ddiwygiad i Amodau 3, 7 a 9, Amod Newydd 13 a Nodyn Newydd i'r Ymgeisydd.
3. Ychwanegu ....”adeiladu, cau lleiniau canol ac ymestyn ayb....”
7. Nid yw'r defnydd a ganiateir drwy hyn i gychwyn hyd nes y bydd cynllun i waredu draeniad dwr budr a dwr wyneb wedi'i gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo ac mae'r cynllun a gymeradwywyd i'w gwblhau ac i fod ar gael i'w ddefnyddio cyn defnyddio'r safle gan garafanau teithiol.
RHESWM : Atal llygredd a llifogydd.
9. ychwanegu.....”tymhorau hadu yn dilyn cychwyniad y datblygiad.”
13. Nid yw'r defnydd a ganiateir drwy hyn i gychwyn hyd nes y bydd cynllun i godi rhybuddion rhybudd perygl llifogydd ac i weithredu cynlluniau rhybudd perygl llifogydd a gwacáu wedi'u cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo ac mae'r cynllun i'w weithredu'n llawn pryd bynnag y mae'r safle mewn defnydd.
RHESWM : Lleihau perygl llifogydd i ddefnyddwyr y safle.
NODYN YCHWANEGOL I'R YMGEISYDD : Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn cynghori bod y safle mewn perygl gan lifogydd ac y dylid codi arwyddion rhybuddio addas ar y safle i rybuddio'r rheini sy'n defnyddio'r safle.

46/2002/0764/PF

(Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd Powys - angen briff gwylio).
Ail-leoli'r wal derfyn bresennol (hyd at 1.5m o uchder) i ganiatáu lledu'r llwybrau presennol yng Nghadeirlan Llanelwy, Stryd Fawr, Llanelwy.
YN AMODOL ar Amod Diwygiedig 4 - Dileu “torri”.

47/2002/0514/PF

(Ar ôl ystyried llythyrau ychwanegol yn cyflwyno sylwadau gan Asiant yr Ymgeisydd, Pensaer Tirwedd yr Ymgeisydd, Cymdeithas Hanes Sir y Fflint (yn gwrthwynebu o ran yr effaith).
Codi orendy newydd ac adeilad cyswllt wrth ei ochr, ac addasiadau i'r teras, grisiau a llwybrau yn Bryn Bella, Tremeirchion, Llanelwy.
YN AMODOL ar Amodau Newydd 2 a 3 a Nodyn Newydd i'r Ymgeisydd.
2. Nid oes dim datblygu i ddigwydd hyd nes y bydd cynllun manwl tirlunio caled a meddal ar gyfer y safle wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo, ac mae cynllun o'r fath i gynnwys manylion :-
(a) yr holl goed, gwrychoedd a llystyfiant arall sy'n bodoli ar y tir, manylion unrhyw rai sydd i'w cadw, a mesurau i'w diogelu yn ystod y datblygu.
(b) coed, gwrychoedd, llwyni neu lystyfiant newydd arfaethedig, yn cynnwys cadarnhad o'r rhywogaethau, niferoedd, a lleoliad ac amseriad arfaethedig y plannu;
(c) defnyddiau arfaethedig sydd i'w defnyddio ar y dreif(s), llwybrau a mannau eraill â wyneb caled;
(d) cloddio arfaethedig, graddio a phentyrru tir a newidiadau yn y lefelau, cyfuchliniau terfynol a pherthynas y pentyrru arfaethedig â'r llystyfiant presennol a'r tirffurf o gwmpas;
(e) safleoedd, dyluniad, defnyddiau a math arfaethedig y driniaeth terfyn.
3. Mae'r holl blannu, hadu, tywarchu, ffensio, walio neu driniaeth arall a gynhwysir yn y manylion tirlunio a gymeradwywyd i'w wneud yn y tymhorau plannu a hadu cyntaf ar ôl cwblhau'r datblygiad ac mae unrhyw goed neu blanhigion sydd, o fewn cyfnod o bum mlynedd i'r datblygiad, yn marw, yn cael eu gwaredu neu'n cael eu difrodi neu'u

heintio'n ddifrifol i'w cyfnewid yn y tymor plannu nesaf am rai eraill o faint a rhywogaeth debyg.
NODYN NEWYDD I'R YMGEISYDD : Fe'ch atgoffir drwy hyn fod y gwaith y mae'r caniatâd hwn yn ymwneud ag ef ag angen Caniatâd Adeilad Rhestredig hefyd ac nad yw hi'n dilyn o reidrwydd y bydd Caniatâd o'r fath yn cael ei roi. Mae hi'n drosedd i waith dymchwel neu weithgareddau eraill sy'n effeithio ar gymeriad adeilad rhestredig (yn cynnwys newidiadau mewnol) gael eu gwneud heb Ganiatâd Adeilad Rhestredig; ni ddylai unrhyw waith o'r fath gael ei wneud felly hyd nes y bydd Caniatâd Adeilad Rhestredig wedi'i roi hefyd.

(ii) Gwrthod

09/2002/1099/PC — Cyhoeddodd y Cynghorydd M.A. German ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr tra oedd yn cael ei ystyried.
(Ar ôl ystyried dau lythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau gan yr Ymgeisydd yn gofyn am ohiriad a Mr & Mrs T L Morris, Railway Terrace, Afonwen).
Parhau i ddefnyddio tir i storio pethau cofiadwy rheilffyrdd ac eitemau cysylltiedig (Cais ôl-weithredol) ar hen Dir y Rheilffordd yn gyfagos i Feithrinfeydd Aberchwhiler, Ffordd Yr Wyddgrug, Bodfari, Dinbych.
Am y rheswm diwygiedig canlynol dros wrthod 2 - ychwanegwch...
"felly byddai'r cynnig yn groes i Bolisi TRA6 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych".

(iii) Caniatâd Adeilad Rhestredig (Yn amodol ar eu cyfeirio at CADW)

03/2002/1014/LB — Codi estyniadau, newidiadau a rhannol-ddymchwel adeiladau yn Trevor Old Mill, Bryn Howell Lane, Trevor, Llangollen

47/2002/0515/LB — (Ar ôl ystyried 3 llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau gan Asiantiaid yr Ymgeisydd, Pensaer Tirwedd yr Ymgeisydd a Chymdeithas Hanes Sir y Fflint.)
Codi orendy newydd ac adeilad cyswllt wrth ei ochr, a newidiadau i'r teras, grisiau a llwybrau yn Bryn Bella, Tremeirchion, Llanelwy.

(iv) Gohirio am y rhesymau a roddir

06/2002/0782/PF — (Ar ôl ystyried 2 lythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru - yn gofyn am ohiriad i wneud asesiad o berygl llifogydd a Karen Sinclair (AC)).
Codi deuddeg (12) o anheddau, adeiladu mynedfa newydd i gerddwyr a cherbydau, lledu Ffordd Stad Deunant, darparu lleoedd ceir ar gyfer Stad Deunant, darparu lle chwarae i blant, ac adeiladu pont gyda chylfat cysylltiedig ar Dir yn Bryn Llan, Gwyddelwern, Corwen.
GOHIRIWYD i aros am wybodaeth asesiad o berygl llifogydd.

45/2002/1057/PF — (Ar ôl ystyried derbyn cynlluniau diwygiedig a 3 llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau gan y Pen Swyddog Cefn Gwlad, Pennaeth Priffyrdd, Ymgeiswyr - Cwmni Rheoli sy'n cael ei sefydlu).
Codi 20 o fflatiau deulawr a newidiadau i'r fynedfa bresennol i gerbydau/gerddwyr yn Fraith Villa, 2a Boughton Avenue, Y Rhyl.
GOHIRIWYD i ganiatáu i'r cyfnod cyhoeddusrwydd ar y cynlluniau diwygiedig ddod i ben.

(v) Ymweliadau Safle

43/2002/1084/PF — Codi 21 o anheddau ac adeiladu mynedfa newydd i gerbydau/gerddwyr ar Safle 3 Stad Parc Bodnant, Ffordd Llys Nant, Prestatyn.
Cynigiwyd Ymweliad Safle i asesu effaith traffig adeiladu ar yr ardal breswyl gyfagos.

43/2002/0946/PF — (Ar ôl ystyried 3 llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau gan Mr & Mrs G. Gordon, 1 Clos Aberconwy, W.G. Ball, 2 Clos Aberconwy a Guy Woodcock & Co (ar ran Mr Gordon, 1 Clos Aberconwy).
Codi estyniadau unllawr yn nhu blaen, yng nghefn ac wrth ochr yr annedd yn 40 Parc Aberconwy, Prestatyn.
Cynigiwyd Ymweliad Safle i ystyried yr effaith ar dai cyfagos.

41/2002/0808/PC — (Ar ôl ystyried 3 llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau gan yr Ymgeisydd a Phennaeth Priffyrdd, CBY AHNE).
Cadw llawr caled a phentwr pridd a pharhau i ddefnyddio tir ar gyfer defnydd cymysg yn gysylltiedig â choedwigaeth yn cynnwys storio peiriannau/defnyddiau mewn cysylltiad â busnes Contractwr Tirwedd, storio coed, torri, bagio a storio coed tân, cynhyrchu siarcol, meithrinfa goed, crefftau prysgwydd, ac addysg a hyfforddiant yn seiliedig ar goetir. Codi polytwnnel. (Cais ôl-weithredol) Lleiniau OS Rhif 2958 & 3256 Yn gyfagos i Warren House, Ffordd yr Wyddgrug, Bodfari, Dinbych.
Cynigiwyd Ymweliad Safle i asesu'r effaith ar yr AHNE a digonolrwydd y fynedfa.

(vi) Materion Gorfodi

ENF/2002/0026 —
(i) Newid defnydd tir yn ddefnydd sui generis sy'n cynnwys mewnforio a storio coed. Llosgi siarcol, paratoi coed i'w gwerthu'n adwerthol a gwahanol ddefnydd arall sy'n gysylltiedig ag iard goed
(ii) Newid defnydd tir drwy leoli dwy uned carafan statig mewn cysylltiad â (i) uchod
(iii) Datblygiad gweithredol diawdurdod, yn cynnwys newidiadau i lefelau tir, creu llawr caled a phentwr pridd
Yn Siarcol Bodfari (Lleiniau OS Rhif 2958 & 3256), y Safle Carafanau, y Warren, Ffordd yr Wyddgrug, Bodfari, Dinbych.
GOHIRIO i aros canlyniad y cais Cynllunio a fydd yn destun Ymweliad Safle.

ENF/2002/0043 — Defnyddio tir i storio pethau cofiadwy rheilffyrdd ac eitemau cysylltiedig ar Hen Dir y Rheilffordd yn gyfagos i Feithrinfeydd Aberchwiler, Ffordd yr Wyddgrug, Bodfari, Dinbych.
Bod awdurdodiad i'w roi ar gyfer y canlynol:
(i) Cyflwyno Rhybudd Gorfodi i sicrhau y rhoddir terfyn ar y defnydd storio diawdurdod, y ceir gwared â'r holl eitemau ar gadw oddi ar y tir ac adfer y tir i'w gyflwr a'i olwg blaenorol.
(ii) Cychwyn achos erlyn, neu gamau priodol eraill, dan y Deddfau Cynllunio yn erbyn unrhyw un neu rai y cyflwynir unrhyw Rybudd Gorfodi neu Rybudd arall o'r fath iddynt, neu y cymerir camau cyfreithiol yn eu herbyn petaent yn methu â chydymffurfio â'u gofynion.

**862. <u>GWEITHDREFNAU'R PWYLLGOR - CYFRANOGIAD SWYDDOGION PRIFFYRDD</u>**

Cyflwynwyd Adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio, yn egluro rôl Priffyrdd yn y broses gynllunio ac yn gofyn am gyngor yr Aelodau ar gyfranogiad Swyddogion Priffyrdd yn y dyfodol. Rhoddwyd amrediad o opsiynau ac fe

***BENDERFYNWYD*** *cymeradwyo cyfuniad o opsiynau 1 a 2 sef :-*

*1.* ***Ymatebion ymgynghori*** *- bod Pennaeth Priffyrdd yn cynnwys mwy o fanylion yn ei ymatebion yn cynnwys y rheswm dros ddod i argymhelliad. Yna byddid yn rhoi adroddiad ar yr ymatebion mwy manwl i'r Pwyllgor Cynllunio dan ymatebion ymgynghori.*

*2.* ***Presenoldeb achlysurol yn y Pwyllgor Cynllunio*** *- byddai presenoldeb mewn ymateb i gais penodol gan Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio neu Aelod i ymdrin â materion priffyrdd sy'n codi o gais arbennig. Mewn perthynas â cheisiadau Aelodau, byddai'r rhain yn cael eu cynnwys o fewn y cais ysgrifenedig i gyfeirio'r cais cynllunio i'r Pwyllgor Cynllunio.*

**863. DYDDIAD YMWELIAD SAFLE**

Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn gofyn am gymeradwyaeth i ymweliadau safle sy'n codi o Eitem Agenda Rhif 2 gael eu cynnal ar ddydd Llun 6ed Ionawr 2003 ac yn rhoi gwybod am aelodaeth bresennol y Panel Ymweld â Safleoedd.

***PENDERFYNWYD*** *bod yr ymweliadau safle a gymeradwywyd i'w cynnal ar ddydd Llun 6ed Ionawr 2003.*

**864. RHESTR O GEISIADAU YR YMDRINIWYD Â HWY DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad ysgrifenedig (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) ynghylch y ceisiadau am Ganiatâd Cynllunio a benderfynwyd ganddo ef dan awdurdod dirprwyedig rhwng 7ed Tachwedd 2002 a'r 22ain Tachwedd 2002.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.20 p.m.

************